**Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif.3**
**Legislation Committee No.3**

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

Bae Caerdydd / Cardiff Bay
Caerdydd / Cardiff CF99 1NA

11 Mai 2009

Annwyl Syr / Madam

**Ymgynghoriad ar y** *Mesur Arfaethedig ynghylch Addysg (Cymru)*

Fel rhan o'r ystyriaeth Cyfnod 1, mae Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 3 Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn galw am dystiolaeth mewn perthynas ag egwyddorion cyffredinol y *Mesur Arfaethedig ynghylch Addysg*.

**Beth yw Mesur?**

Darn o ddeddfwriaeth a wneir gan y Cynulliad yw Mesur. Mae iddo effaith debyg i Ddeddf Seneddol. Gall y Cynulliad basio Mesurau ar unrhyw 'fater' a restrir yn Atodlen 5 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006. Mae'r Mesur arfaethedig ynghylch Addysg (Cymru) yn ymwneud â materion sy'n gysylltiedig ag addysg a hyfforddiant.

Tra bod Mesur yn mynd trwy'r Cynulliad, fe'i elwir yn 'Fesur arfaethedig'.

Mae pedwar cyfnod yn y broses ar gyfer ystyried Mesur arfaethedig. Yn ystod Cyfnod 1, mae'r pwyllgor yn ystyried egwyddorion cyffredinol y Mesur arfaethedig (gan gymryd tystiolaeth ysgrifenedig a thystiolaeth lafar gan bartïon sydd â diddordeb a rhanddeiliaid) ac mae'r Cynulliad yn cytuno ar yr egwyddorion cyffredinol hynny.

**Beth mae'r Mesur arfaethedig am ei gyflawni?**

Mae'r Memorandwm Esboniadol sy'n gysylltiedig â'r Mesur arfaethedig yn datgan:

"Diben y Mesur hwn yw ymestyn hawl plant drwy roi iddynt hawliau i wneud apelau anghenion addysgol arbennig (AAA) a hawliadau o wahaniaethu ar sail anabledd i Dribiwnlys Anghenion Addysgol Arbennig Cymru (y Tribiwnlys). Bydd yn diwygio'r gyfraith sy'n rhoi i rieni yr hawl i wneud apelau a hawliadau i'r Tribiwnlys."

**Beth yw rôl y pwyllgor?**

**Ffon / Tel: 029 2089 8041**
**Ffacs / Fax: 029 2089 8021**
**Minicom: 029 2082 3280**

**E-bost / E-mail: legislationoffice@wales.gsi.gov.uk**

Rôl Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 3 yw ystyried egwyddorion cyffredinol y Mesur arfaethedig a chyflwyno adroddiad arnynt. Wrth wneud hyn, mae'r Pwyllgor wedi cytuno i weithio o fewn y fframwaith a ganlyn:

I ystyried :

i) Yr angen am Fesur arfaethedig i gyflawni'r amcanion isod:

- rhoi hawliau i blant i wneud apelau anghenion addysgol arbennig (AAA) a hawliadau o wahaniaethu ar sail anabledd i Dribiwnlys Anghenion Addysgol Arbennig Cymru (y Tribiwnlys).

- diwygio'r gyfraith sy'n rhoi i rieni yr hawl i wneud apelau a hawliadau i'r tribiwnlys, yn unol â Deddf Addysg 1996 (fel y'i diwygiwyd) a Deddf Anghenion Addysgol Arbennig ac Anabledd 2001;

ii) a yw'r Mesur arfaethedig yn cyflawni'r amcanion a nodwyd;

iii) prif ddarpariaethau'r Mesur arfaethedig ac a ydynt yn addas ar gyfer cyflawni ei amcanion;

iv) rhwystrau posibl rhag gweithredu'r prif ddarpariaethau ac a yw'r Mesur arfaethedig yn rhoi sylw iddynt;

v) barn y rhanddeiliaid a fydd yn gorfod gweithio â'r trefniadau newydd.

**Sut y gallwch helpu – y cwestiynau ymgynghorol**

Ceir manylion y Mesur arfaethedig a'r Memorandwm Esboniadol cysylltiedig ar wefan y Cynulliad Cenedlaethol yn: http://www.cynulliadcymru.org/bus-home/bus-legislation/bus-leg-measures/business-legislation-measures-cf.htm

Hoffai'r Pwyllgor eich gwahodd i gyflwyno tystiolaeth ysgrifenedig i'w gynorthwyo yn ei waith o graffu ar y Mesur arfaethedig. Yn arbennig, byddai'n croesawu eich sylwadau ar y pwyntiau a restrir yn **Atodiad 1.**

Os ydych am gyflwyno tystiolaeth, anfonwch gopi electronig o'ch cyflwyniad i APSLegislationCommitteeNo3@wales.gsi.gov.uk a rhowch *Ymgynghoriad - y Mesur Arfaethedig ynghylch Addysg* fel pennawd i'r e-bost.

Fel arall, gallwch ysgrifennu at:
Ruth Hatton, Dirprwy Glerc y Pwyllgor, Y Swyddfa Ddeddfwriaeth. Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Bae Caerdydd, CF99 1NA.

**Dylai unrhyw dystiolaeth gyrraedd erbyn 5 Mehefin 2009. Efallai na fydd yn bosibl**

**Ffon / Tel: 029 2089 8041**
**Ffacs / Fax: 029 2089 8021**
**Minicom: 029 2082 3280**

**E-bost / E-mail: legislationoffice@wales.gsi.gov.uk**

**ystyried unrhyw ymateb a ddaw i law ar ôl y dyddiad hwn.**

Gellir dod o hyd i ragor o wybodaeth am y **broses ddeddfwriaethol** yn:
http://www.cynulliadcymru.org/bus-home/bus-legislation/bus-legislation-guidance/bus-legislation-guidance-measures.htm


Wrth baratoi eich tystiolaeth, dylech ystyried y pwyntiau a ganlyn:

- dylai eich ymateb fynd i'r afael â'r materion sydd gerbron y pwyllgor. Defnyddiwch y pennawd uchod fel cyfeirnod i'ch ymateb
- bydd y Cynulliad Cenedlaethol fel arfer yn sicrhau bod ymatebion i ymgynghoriad cyhoeddus ar gael i'r cyhoedd graffu arnynt ac efallai y bydd Aelodau'r Cynulliad yn eu gweld a'u trafod yn ystod cyfarfodydd pwyllgor hefyd. **Os nad ydych am i ni gyhoeddi eich ymateb neu'ch enw, mae'n bwysig eich bod yn nodi hyn yn glir wrth gyflwyno'ch tystiolaeth**
- nodwch a ydych yn ymateb ar ran sefydliad, neu fel unigolyn
- nodwch a fyddech yn barod i roi tystiolaeth ar lafar i'r Pwyllgor.

Mae'r Pwyllgor yn croesawu cyfraniadau yn Gymraeg ac yn Saesneg a byddwn yn ystyried ymatebion i'r ymgynghoriad ysgrifenedig yn ystod tymor y gwanwyn.

Os oes unrhyw gwestiynau gennych, cysylltwch â Fay Bowen, Clerc y Pwyllgor, ar 029 2089 8041 neu Ruth Hatton, y Dirprwy Glerc, ar 029 2089 8019.

Yn gywir



**Dai Lloyd AC**
**Cadeirydd y Pwyllgor**

**Ffon / Tel: 029 2089 8041**
**Ffacs / Fax: 029 2089 8021**
**Minicom: 029 2082 3280**

**E-bost / E-mail: legislationoffice@wales.gsi.gov.uk**

**Atodiad 1**

1. A oes angen gwneud deddfwriaeth i roi'r hawl i blant wneud apelau a hawliadau i Dribiwnlys Anghenion Addysgol Arbennig Cymru ac os oes, pam?

2. A yw adrannau'r Mesur arfaethedig yn briodol o ran diwygio deddfwriaeth sy'n ymwneud ag apelau Anghenion Addysgol Arbennig? Os na, ym mha ffordd mae angen newid y Mesur arfaethedig?

   Wrth ystyried y cwestiwn hwn, *efallai* y byddwch am ystyried natur darpariaethau'r Mesur arfaethedig a fanylir isod:

   (a) Rhaid i awdurdodau lleol roi gwybod i blant am eu hawl i apelio **(Adran 4)**;

   (b) Rhaid i awdurdodau lleol wneud trefniadau ar gyfer gwasanaethau partneriaeth a datrys anghytundebau a rhoi gwybod i blant am eu hawl i gael mynediad atynt **(Adrannau 5 & 12)**;

   (c) Rhaid i awdurdodau lleol ddarparu mynediad at wasanaethau eirioli annibynnol i blant. Bydd disgwyl i eiriolwyr allu helpu plant i gymryd rhan mewn prosesau datrys, i baratoi achos apêl/hawliad a'u cefnogi neu eu cynrychioli mewn gwrandawiadau **(Adrannau 6 & 13)**;

   (d) Dylid trosglwyddo'r pwerau i wneud rheoliadau mewn perthynas â gweithdrefnau'r Tribiwnlys ar wahaniaethu ar sail anabledd o'r Ysgrifennydd Gwladol dros Gyfiawnder i Weinidogion Cymru **(Adran 15)**;

   (e) Dylid trosglwyddo'r cyfrifoldeb dros ystyried cwynion am beidio â gweithredu Gorchmynion ynghylch gwahaniaethu ar sail anabledd o'r Ysgrifennydd Gwladol dros Gyfiawnder i Weinidogion Cymru **(Adran 15)**; a

   (f) Dylid cynnal cyfnod treialu a gwerthuso cychwynnol mewn ardaloedd rhai awdurdodau lleol, cyn rhoi'r ddeddfwriaeth ar waith ym mhob rhan o Gymru **(Adrannau 17-19)**.

**Ffon / Tel: 029 2089 8041**
**Ffacs / Fax: 029 2089 8021**
**Minicom: 029 2082 3280**

**E-bost / E-mail: legislationoffice@wales.gsi.gov.uk**

3. Sut y bydd y Mesur arfaethedig yn newid yr hyn y mae sefydliadau yn ei wneud ar hyn o bryd a beth fydd effaith newidiadau o'r fath, os o gwbl?

4. Beth yw'r rhwystrau posibl o ran gweithredu darpariaethau'r Mesur arfaethedig (os o gwbl) ac a yw'r Mesur arfaethedig yn eu hystyried?

5. Beth yw goblygiadau'r Mesur arfaethedig i sefydliadau, os o gwbl? Wrth ateb y cwestiwn hwn, efallai yr hoffech ystyried a ydych yn cytuno ag Adran 2 y Memorandwm Esboniadol sy'n amcangyfrif costau a manteision gweithredu'r Mesur arfaethedig.

6. Beth yw eich barn chi am y pwerau yn adran 18 sy'n galluogi Gweinidogion Cymru i ddiwygio deddfwriaeth sylfaenol sydd eisoes yn bodoli drwy is-ddeddfwriaeth (drwy Orchymyn) fel Deddf Addysg 1996 a Deddf Gwahaniaethu ar Sail Anabledd 1995?

7. A oes gennych unrhyw sylwadau eraill ar adrannau penodol o'r Mesur arfaethedig?

Ffon / Tel: 029 2089 8041
Ffacs / Fax: 029 2089 8021
Minicom: 029 2082 3280

E-bost / E-mail: legislationoffice@wales.gsi.gov.uk